# Ysgoloriaethau Cerdd
# Telerau ac Amodau

1. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwneud cais i astudio'n llawn amser am radd mewn unrhyw bwnc (israddedig neu ôl-raddedig) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ni thelir gwobrau i'r rhai sy'n trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 y cwrs.

2. Mae Ceisiadau ar agor i ymgeiswyr o'r DU ac ymgesiwyr rhyngwladol.

3. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb reswm da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

4. Pan ddyfernir ysgoloriaeth, gwneir taliadau trwy Aspire Aber. Bydd myfyrwyr yn cael e-bost oddi wrth Aspire Aber yn eu hysbysu bod yr arian ar gael, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i dynnu'r arian allan.

5. Telir gwobrau tra bod myfyrwyr wedi'u cofrestru'n llawn amser ac yn talu ffioedd llawn. Ni wneir taliadau yn ystod blynyddoedd dramor, blynyddoedd mewn cyflogaeth, blynyddoedd rhyngosod ac ati.

6. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.

7. Cyfrifoldeb deiliad y dyfarniad yw tynnu'r arian o'r cyfrif cyn i'r cyllid ddod i ben. Os bydd unrhyw falans yn weddill ar y dyddiad penodedig, bydd yr arian yn cael ei symud o'r cyfrif ac ni fydd modd i chi gael mynediad ato mwyach.

8. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

9. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

10. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

11. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

12. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu ar y dyraniadau; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.

13. Mae rhaid i chi lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais erbyn y dyddiad priodol a nodir ar dudalen we ein hysgoloriaeth.

14. Os gwahoddir ymgeiswyr, rhaid iddynt fod ar gael i gael clyweliad ar amser sy'n gyfleus i bawb.

15. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

16. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.